
# Rôl chwilod y dom ar ffermydd da byw

Chwilod bach sy'n byw mewn dom ac o dan y ddaear yw chwilod y dom. Anaml iawn y byddwn yn rhoi llawer o feddwl iddyn nhw, am na allwn eu gweld heb chwilio amdanynt. Ond mae'r rôl maen nhw'n ei chwarae ar ffermydd yn enfawr, gyda buddion y diwydiant awgrymedig yn werth dros £350 miliwn y flwyddyn.






- Mae chwilod y dom yn tynnu dom allan o'r borfa ac yn ei gladdu o dan y ddaear
- Maen nhw'n creu sianeli sy'n gwella strwythur a draeniad pridd
- Maent yn hwyluso ailgylchu maethynnau
- Maen nhw'n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn helpu i ddal a storio carbon drwy brosesu'r dom
- Maent yn lleihau goroesiad larfâu pryfed pla a larfâu parasitiaid gastroberfeddol mewn tail
- Maen nhw'n cynyddu gweithgarwch ffawna pridd drwy fynd â dom o dan y ddaear. Mae hyn yn gwella iechyd ac amrywiaeth cyffredinol y pridd
- Maent yn ffynhonnell fwyd ar gyfer ystlumod, adar a rhai mamaliaid, fel draenogod a llwynogod

**Beth all ffermwyr ei wneud i helpu poblogaethau chwilod y dom?**

- Cadwch ychydig o stoc yn yr awyr agored drwy'r flwyddyn i ddarparu cynefin parhaus.
- Mae deietau da byw sy'n uchel mewn brasfwyd yn cynhyrchu dom o gysondeb mwy ffafriol i chwilod y dom yn ogystal â hyrwyddo iechyd mewn da byw.
- Defnyddiwch gyfrifon wyau ysgarthol i benderfynu pryd mae angen trin da byw ar gyfer parasitiaid mewnol. Gall cynhyrchion rheoli llyngyr fod yn niweidiol i chwilod a bydd lleihau eu defnydd yn helpu poblogaethau chwilod.
- Defnyddiwch y ddos pwysau cywir o gwrthficrobau/antiparasitigau i leihau rhyddhau amgylcheddol. Gellir cyflawni hyn gan ddefnyddio cloriannau clyfar a gynnau dosio.
- Lleihau aflonyddu pridd lle mae chwilod yn bresennol i gadw eu cynefinoedd.




Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

FARMING connect
cyswllt FFERMIO